







Trivallis.

# Adroddiad ar y bwlch cyflog rhywedd 2025

# Cyflwyno ein Hadroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd ar gyfer 2025

Ar 5 Ebrill 2025, mae'r cyflog cyfartalog yn dangos bod dynion yn cael 2.01% yn fwy o dâl na menywod. Mae hyn yn golygu bod dynion yn ennill £1.02 am bob £1.00 y mae menywod yn ei ennill. Mae hyn yn welliant ers 2024, pan oedd dynion yn ennill £1.07 am bob £1.00 a enillwyd gan fenywod.

Mae hyn wedi gwella oherwydd bod mwy o fenywod bellach yn gweithio mewn rolau cyflog uwch, a bod cyflog yn decach o fewn pob band cyflog. Fodd bynnag, mae'r bwlch yn dal i gael ei effeithio gan daliadau ychwanegol ar gyfer gwaith ar alwad, sy'n cael eu talu'n bennaf i dimau masnach sy'n cynnwys dynion yn unig.

Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau'r bwlch hwn, ac yn gweithio arno fel rhan o'n cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Rydyn ni'n cymryd camau clir ar draws y sefydliad i fynd i'r afael â'r gwir resymau y tu ôl i'r bwlch cyflog rhywedd, ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n ystyried sut mae ffactorau gwahanol yn effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol.

Yn Trivallis, rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein staff a'n defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu trin yn deg.

Rydyn ni am i bawb gael mynediad teg at gyfleoedd, ac nid ydym am i unrhyw berson neu grŵp gael ei drin yn annheg.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal, ac wedi ymrwymo i roi'r rhain ar waith.

Mae adroddiadau ar y bwlch cyflog rhywedd yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng yr hyn mae dynion a menywod yn ei ennill fesul awr, ar gyfartaledd, dros flwyddyn. Nid yw hyn yr un peth â Chyflog Cyfartal, sef talu'r un faint i ddynion a menywod am wneud yr un gwaith neu waith tebyg.

Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyflog ar 5 Ebrill bob blwyddyn (y "dyddiad cipolwg ar y sefyllfa"), ac mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r canlyniadau erbyn 4 Ebrill y flwyddyn ganlynol.

Dyma'r nawfed flwyddyn i Trivallis adrodd am ei bwlch cyflog rhywedd. Cyfrifwyd yr holl ffigurau gan ddefnyddio ein system AD/Cyflogres Civica.

# Proffil y gweithle

Ers 5 Ebrill 2024, mae ein rhaniad rhywedd wedi aros yr un fath: mae 44% o'n staff yn fenywod a 56% yn ddynion. Mae cyfanswm y gweithwyr wedi cynyddu ryw fymryn o 432 yn 2024 i 438 ym mis Ebrill 2025, ond ar y cyfan, mae maint y gweithlu yn parhau'n sefydlog.

**56% yn ddynion** **44% yn fenywod**

Rhaniad rhywedd yr holl weithlu

Mae Uwch Dîm Arwain Trivallis wedi'i ogwyddo tuag at ddynion, gyda saith dyn a thair menyw. Ar hyn o bryd, mae'r Uwch Dîm Arwain yn cynnwys Prif Weithredwr, pedwar Cyfarwyddwr Gweithredol a phum Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**70% yn ddynion** **30% yn fenywod**

Rhaniad rhywedd yr uwch dîm arwain




Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 6.9% oedd y bwlch cyflog rhywedd ar gyfer y DU yn 2025, i lawr ychydig o 7.0% yn 2024.

# Ein crynodeb o'r bwlch cyflog rhywedd

Y bwlch cyflog rhywedd yw'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflog fesul awr cyfartalog menywod a dynion.
Mae hyn yn cael ei gyfrifo mewn dwy ffordd - cymedr a chanolrif.

## Bwlch cyflog

**Cymedr (cyfartaledd)**

**2.01%**

Mae hyn yn dangos bod menywod ar gyfartaledd yn cael eu talu llai na dynion.

**Pwynt canol (canolrif)**

**0.72%**

Cyfrifir cymedr trwy ychwanegu pob cyfradd fesul awr a rhannu'r cyfanswm â nifer y gweithwyr. Gall y ffigurau terfynol gael eu gogwyddo gan lond llaw o unigolion ar gyflog uchel.

Mae'r ffigur canolrifol yn disgyn yng nghanol ystod ac yn cael ei gyfrifo pan fydd yr holl gyflogau wedi'u hunioni o'r lleiaf i'r mwyaf. Mae'n dangos y gwahaniaeth yn y canolbwyntiau yn y tâl fesul awr i ddynion a menywod ac nid yw'n cael ei effeithio gan 'allanolynnau' h.y. yr ychydig unigolion sydd ar frig neu waelod yr ystod. Dyma'r dull gorau i'w ddefnyddio i gymharu â sefydliadau eraill.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod dynion ar gyfartaledd (cymedrig) yn cael eu talu 2.01% yn fwy na menywod. Mae hyn yn golygu bod dynion yn ennill £1.02 am bob £1.00 y mae menywod yn ei ennill. Mae'r bwlch hwn yn llawer is na 2024 pan oedd y bwlch yn 7.39%, a oedd yn golygu bod dynion yn ennill £1.07 am bob £1.00 a enillwyd gan fenywod.

Y bwlch cyflog rhywedd canolrifol ar gyfer 05 Ebrill 2025 yw 0.72%, sy'n ostyngiad mawr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 8.94%. Mae hyn yn golygu bod dynion yn ennill £1.01 am bob £1.00 y mae menywod yn ei ennill. Y gyfradd ganolrifol fesul awr i ddynion oedd £18.15 o gymharu â £18.02 i fenywod.

# Cyfran y dynion a'r menywod ym mhob chwartel cyflog

Ar gyfer adrodd bwlch cyflog rhywedd, mae'n ofynnol i ni rannu ein gweithwyr yn bedwar grŵp cyfartal yn seiliedig ar eu cyfradd gyflog fesul awr. Gelwir pob grŵp yn chwartel.




Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y dynion a'r menywod ym mhob chwartel cyflog yn fach, ond mae'r bwlch mwyaf yn y chwartel uchaf. Yn y grŵp cyflog uchaf hwn, mae 66 o ddynion (60%) a 44 o fenywod (40%).

Er bod mwy o ddynion yn y grŵp cyflog uchaf, mae'r bwlch cyflog canolrifol yn ffafrio menywod fymryn ar -3.82%. Mae hyn yn golygu bod dynion yn ennill tua £0.96 am bob £1.00 mae menywod yn ei ennill. Y llynedd, roedd dynion yn ennill tua £0.93, felly mae'r bwlch wedi cau.

Yn Trivallis, mae'r rhan fwyaf o'n swyddi crefftwyr a chynnal a chadw yn cael eu gwneud gan ddynion. Mae'r swyddi hyn yn cynnig tâl ychwanegol am bethau fel gwaith ar alwad a dyletswyddau aml-sgil.

Mae hyn yn cynyddu enillion dynion ac yn effeithio ar eu niferoedd uwch yn y chwartel uchaf a'r bwlch cyflog rhywedd cyffredinol.

# Cymhariaeth bwlch cyflog rhywedd ar gyfer pob chwartel 2023 - 2025

| | 2023 | 2024 | 2025 | Eglurhad |
|---|---|---|---|---|
| **Chwartel uchaf** | -2.52% | -2.93% | -3.82% | Mae'r bwlch cyflog yn y chwartel uchaf ychydig yn fwy ffafriol i fenywod, gan barhau â thuedd y tair blynedd diwethaf. |
| **Chwartel canol uchaf** | -0.03% | 1.95% | -0.05% | Yn 2023, roedd y bwlch cyflog bron yn sero (0.03%), sy'n golygu bod dynion a menywod yn cael eu talu bron yr un fath. Yn 2024, cynyddodd y bwlch i 1.95%, felly roedd dynion yn cael mwy o gyflog na menywod ar gyfartaledd. Yn 2025, caeodd y bwlch eto i 0.05%, gan ddychwelyd i gyflog cyfartal fwy neu lai. |
| **Chwartel canol isaf** | 4.04% | 1.08% | 7.01% | Ar y cyfan, mae'r bwlch cyflog yn y chwartel hwn wedi gwaethygu, gyda dynion bellach yn ennill £1.07 am bob £1 a delir i fenywod. Mae hyn yn cael ei achosi'n bennaf gan daliadau bonws i Beirianwyr Gwasanaethau Nwy, sydd i gyd yn ddynion. |
| **Chwartel isaf** | 0% | -1.02% | -7.70% | Yn 2023, roedd y bwlch cyflog yn sero. Ers hynny, mae'r bwlch cyflog wedi symud yn gyson o blaid menywod. Mae dynion bellach yn ennill £0.92 am bob £1 a enillir gan fenywod. |



Yr unig daliad bonws a ddyfarnwyd yn Trivallis yw i beirianwyr gwasanaethu nwy. Mae hwn yn gytundeb etifeddol o'r cyfnod pan drosglwyddwyd y staff o TUPE yn 2010 o Homeforce.

# Y bwlch o ran taliadau bonws

## Bwlch cyflog

**Cymedr (cyfartaledd)**

100%

**Canolbwynt (canolrif):**

100%

Mae hyn yn dangos mai dim ond dynion sy'n derbyn bonws.

**Cyfran y dynion a'r menywod sy'n derbyn taliadau bonws**

**3.7%**
Dynion

**0.0%**
Menywod

Mae'r taliad bonws yn cael ei dalu'n fisol lle mae gweithiwr yn cwblhau mwy na saith gwasanaeth nwy mewn diwrnod.

Y rheswm bod bwlch o 100% o ran taliadau bonws yw mai dynion yw ein holl beirianwyr gwasanaethau nwy.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Trivallis unrhyw beirianwyr gwasanaethau nwy benywaidd.

Cynyddodd canran y dynion a dderbyniodd y bonws hwn o 3.3% yn 2024 i 3.7% yn 2025.

# Beth rydyn ni'n ei wneud i leihau ein bwlch cyflog rhywedd

**1. Cyflog (Cyfraddau Sefydlog)**

- Rydyn ni'n defnyddio cyflogau sefydlog ar gyfer pob swydd, yn hytrach na bandiau neu ystod. Mae hyn yn cadw cyflogau'n deg ym mhob rôl, ond nid yw'n ein helpu i gymharu rolau.
- Nid ydym wedi bod â ffordd briodol o gymharu gwerth swyddi ar draws Trivallis, sy'n risg.
- I wneud iawn am hyn, mae cwmni allanol yn adolygu ein holl rolau. Daeth eu gwaith i ben ganol mis Ionawr 2026 a bydd yn ein helpu i ddylunio system cyflog a graddio gliriach.

**2.Bonysau a Lwfansau**

- Gwyddom fod rhai taliadau ychwanegol yn mynd i ddynion yn bennaf, yn enwedig ym maes crefftau.
- Rydyn ni'n ymgynghori ar gael gwared ar y Bonysau Nwy o fis Mawrth 2026.
- Mae archwiliad mewnol o lwfansau crefftau ar waith, a disgwylir y canlyniadau ym mis Ionawr 2026. Byddwn yn adolygu'r argymhellion ac yn penderfynu beth i'w wneud.
- Hen drefniadau contractiol yw'r taliadau bonws hyn. Nid ydynt yn seiliedig ar berfformiad.

**3. Cydbwysedd rhywedd**

- Mae rolau atgyweirio a chydymffurfiaeth yn cael eu llenwi gan ddynion yn bennaf, sy'n effeithio ar gyflog a diwylliant tîm.
- Hoffem weld mwy o fenywod yn gweithio ym maes crefftau ac rydyn ni'n cwrdd â Llanw (gwasanaeth atgyweirio Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir), sydd wedi cael llwyddiant yn y maes hwn.
- Fel arall mae hi o ran Gwasanaethau Cwsmeriaid - menywod yn bennaf. Mae gwaith yn 2025 wedi gwella'r cydbwysedd o 80/20 (menywod/dynion) i 68/32, gyda chymorth trefniadau gweithio hyblyg a rhannu swyddi.

**4. Monitro Cydraddoldeb**

- Roeddem yn bwriadu gwella ein data cydraddoldeb, ac fe wnaethon ni newid ein system recriwtio ym mis Mehefin 2025 oherwydd nad oedd yr hen system yn casglu gwybodaeth dda.
- Nid ydym wedi gwneud dadansoddiad llawn eto, ond ers mis Ebrill, menywod oedd 90% o'r rhai a benodwyd trwy brosesau recriwtio mewnol.
- Bydd y system newydd yn rhoi data llawer gwell i ni o 2025/26 ymlaen.

**5. Cynlluniau ar gyfer 2026**

- Byddwn yn creu dull cyson, teg tuag at lwfansau cyflog unwaith y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau.
- Ar ôl i'r gwaith Gwerthuso Swyddi orffen, byddwn yn dechrau olrhain cynnydd, recriwtio mewnol a newidiadau cyflog yn agosach, gan gynnwys mewn adroddiadau i ELT a'r Pwyllgor Pobl.

# Edrych i'r dyfodol

Ein bwlch cyflog rhywedd canolrifol yw 0.72%. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn rheolaidd ac yn ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff a chwsmeriaid yn cael eu trin yn deg.

**Rwy'n cadarnhau bod ein data wedi'i gyfrifo yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017.**

**Gareth Thomas**

Cyfarwyddwr Pobl

**Rwy'n cadarnhau bod ein data wedi'i gyfrifo yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017.**

**Nick Beckett**

Cadeirydd y Bwrdd

# Trivallis.

Ty Pennant
Mill Street
Pontypridd
CF37 2SW

**03000 030 888**
**cym.trivallis.co.uk**